Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Iwan Owen-Ellis
Ysgol Morgan Llwyd
Ffordd Cefn
Wrecsam
LL13 9NG

18/03/2025

Annwyl Iwan Owen-Ellis

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2025

Diolch i chi am eich cefnogaeth i hwyluso'r ymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi ei gyflawni ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr a chydlynwyr am eich gwaith gwella
- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â gwersi mathemateg, Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth, technoleg a'r dyniaethau
- Craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi ar y cyd ag uwch arweinwyr
- Edrych ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm
- Edrych ar sut mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol wrth ystyried dysgu ac addysgu

**Ffocws yr ymweliad**

**I ba raddau mae'r ysgol yn datblygu cynllunio strategol ar gyfer y medrau, gan ganolbwyntio ar fedrau darllen, ysgrifennu a rhifedd?**

**Darpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi blaenoriaethu'r angen i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion. Mae'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu'r medrau yma ac yn glir o'u rolau o ran gweithio tuag at y flaenoriaeth hon. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i rannu'r arferion gorau, trwy, er enghraifft, sesiynau dysgu proffesiynol a newyddlen bwrpasol.

Braf oedd clywed bod arweinwyr yn y maes hwn yn cydweithio gydag adrannau penodol er mwyn adnabod cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a darparu cefnogaeth briodol, yn ôl yr angen. Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o gyfleoedd buddiol mewn pynciau perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i greu mwy o gyfleoedd o ansawdd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch fedrau darllen ar draws y pynciau a sicrhau cysondeb pellach wrth i athrawon gywiro gwallau iaith.

Credwn y byddai'n fuddiol i chi ystyried:

- Sut bydd arweinwyr yn gwerthuso gwir effaith y strategaethau i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar safonau a chynnydd disgyblion mewn gwersi a thros amser?
- Sut bydd arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu uwch fedrau darllen disgyblion ar draws y pynciau?
- A yw'r holl staff yn glir o'u rolau wrth wella cywirdeb a mynegiant disgyblion trwy strategaethau cytunedig?

**Darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion**

O'r sampl o waith a'r ychydig o wersi a welwyd, mae'n ymddangos bod yr adran fathemateg yn ceisio addysgu disgyblion i feithrin dealltwriaeth hirdymor o gysyniadau mathemategol. Ar draws y cwricwlwm, ymddengys bod lleiafrif y tasgau rhifedd yn rhai cryf, yn cynnig lefel her addas ac yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Braf oedd clywed bod arweinwyr yn y maes hwn yn cyd-weithio gydag arweinwyr pynciau perthnasol i gryfhau'r tasgau rhifedd a sicrhau eu bod yn ddigon heriol. Clywsom bod ymyraethau priodol ar gael i ddisgyblion sydd angen mwy o gefnogaeth, a'r rhai sydd yn fwy abl o ran medrau rhif.
Teimlwn y byddai'n werth ystyried:

- A yw'r holl dasgau rhifedd a gynigir ar draws y cwricwlwm yn cynnig lefel her addas i'r holl ddisgyblion ac yn sicrhau eu bod yn meddwl yn ddwfn wrth eu cyflawni?
- A oes digon o gefnogaeth yn cael ei gynnig bob amser i'r athrawon sydd yn addysgu'r tasgau rhifedd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r arweiniad gorau posibl i'r disgyblion?

**I ba raddau mae'r ysgol yn datblygu gallu arweinwyr ar bob lefel i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn y dysgu a'r addysgu?**

Mae gan yr ysgol galendr sicrhau ansawdd pwrpasol sy'n cynnwys amrediad o weithgareddau buddiol. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, cyfleoedd i graffu ar waith a chyfleoedd i holi barn disgyblion, rhieni a staff yr ysgol. Braf oedd clywed bod arweinwyr canol yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu i'r gweithgareddau hyn.

Mae uwch arweinwyr yn coladu'r wybodaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd i greu adroddiadau cynhwysfawr a rennir gyda staff yr ysgol. Ymddengys bod arweinwyr yn gallu trafod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau pob amser yn cyfeirio at gyflawniad a chynnydd disgyblion.

Credwn byddai'n fuddiol petai'r ysgol yn ystyried:

- A yw prosesau gwella'r ysgol yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn ôl eu heffaith ar ddysgu'r disgyblion?
- A yw arweinwyr ar bob lefel yn ystyried medrau disgyblion yn ddigon manwl a miniog wrth iddynt arsylwi gwersi a chraffu ar waith?
- A oes lle i finiogi meini prawf llwyddiant cynlluniau datblygu ar bob lefel i ystyried effaith dymunol y gweithredu a sicrhau atebolrwydd?
- A yw cyfarfodydd cyswllt yn ffocysu'n fanwl ar ddysgu ac addysgu ?

Hoffem ddymuno yn dda i chi gyda'ch datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-morgan-llwyd-cy/

Yn gywir

EMEvans.

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol